

Wythnos Busnes Gwynedd 2011

Cynhelir chweched Wythnos Busnes Gwynedd ledled y sir o 23 hyd at 27 Mai 2011. Trefnwyd 12 o ddigwyddiadau unigol, a bydd y rhain yn arwain at seremoni Gwobrwyon Busnes Gwynedd yn Galeri, Caernarfon ar nos lau, 26ain Mai.

Ymgais yw'r digwyddiad blynyddol hwn i annog busnesau i ddoed ynghyd i gyfnewid syniadau, i gael gwybodaeth ac i wynebu'r sialensiau o fasnachu o Wynedd ac yng Ngwynedd. Cefnogir y digwyddiad gan Gyngor Gwynedd, a'r prif noddwr eleni yw Prifysgol Bangor. Mae Magnox, HSBC, Hunaniaith, Software Alliance Wales, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru hefyd wedi cefnogi rhaglen ddigwyddiadau'r wythnos.

Eleni mae'r digwyddiadau yn cynnwys brechwast busnes, gweithdai ar sut i dendro, diwrnod o seminarau Siarad Busnes, gweithdy busnes gwyrdd, digwyddiad rhwydweithio yn y Mynydd Gwefru a hyd yn oed daith gerdded busnes yn Eryri.

Meddai'r **Cynghorydd Dyfed Edwards, arweinydd Cyngor Gwynedd**, "Mae Wythnos Busnes Gwynedd yn gyfle rhagorol i hyrwyddo a dathlu'r amrywiaeth eang o fusnesau llwyddiannus sy'n gweithredu ledled y sir. Yn sicr, mae'r wythnos sydd bellach yn ei chweched flwyddyn, wedi dod yn un o hoff ddigwyddiadau calendr busnes Gwynedd. Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau drwy'r sir, a bydd cyfleoedd rhwydweithio a chymorth a chynghor ymarferol ar gael."

Bydd uchafbwynt digwyddiadau'r wythnos ar y nos lau pan gyhoeddir enwau enillwyr Gwobrau Busnes Gwynedd eleni yn ystod cinio gala a gynhelir yn Galeri, Caernarfon. I gael manylion llawn am yr holl ddigwyddiadau fydd yn rhan o Wythnos Busnes Gwynedd, ac i gofrestru ar gyfer digwyddiadau unigol, ewch i'r wefan www.gwyneddbusinessweek.co.uk neu ffoniwch 01286 685 254.



Agoriad Yn Cipio Gwobr Aur 'BmP'



Mae **Agoriad Cyf** yn falch tu hwnt o ennill gwobr aur 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. Mae'r cwmni sydd wedi ei leoli ym Mangor yn flaenllaw ym maes datblygu posibiliadau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a phobl dan anfantais yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r wobwr yn cael ei dyfarnu i gwmnïau sy'n dangos ymrwymiad i addysg a datblygiad eu gweithwyr ac sy'n gweithredu arfer gorau ym maes rheoli pobl.

Sefydlwyd Agoriad Cyf ym 1992. Yn ogystal â darparu hyfforddiant a gwaith, mae'r cwmni yn rhedeg tair menter gymdeithasol ym Methesda, Aberffraw a Dinas Mawddwy.

"Rydym ni'n hynod o falch o dderbyn y gydnabyddiaeth hon", meddai Arthur Beechey, y Prif Weithredwr. "Mae Agoriad yn dibynnu ar ei dîm i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn cymunedau lleol drwy helpu pobl o dan anfantais i gael swyddi."

Wrth drafod llwyddiant Agoriad, meddai Jacquie Owen, Uwch Reolwr Datblygu Sgiliau Busnes Cynulliad Cymru: "Mae ennill y Wobr Aur yn gamp arfer gorau o safon fyd-eang, ac mae'n dangos eich bod yn gwmni o'r radd flaenaf sy'n gweithredu ar y lefelau uchaf posibl ym maes rheoli pobl."



Mae'r anrhydedd ddiweddaraf hon yn ychwanegu at lwyddiannau eraill diweddar y cwmni, sef Achrediad Ôl-16 drwy Gynulliad Cymru am ddarparu Sgiliau Hanfodol, Enillwyr Gwobr Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ym meysydd Hyfforddi a Datblygu ac am Addysg a Hyfforddiant.

Cadwalader yn Parhau i Ehangu

Mae Hufen Iâ Cadwalader yn parhau i ddatblygu ac i ehangu o'u canolfan yng Ngwynedd. Agorodd eu siop ddiweddaraf, ar Wyl San Steffan 2010, mewn lleoliad strategol bwysig ac ysblennydd, sef drws nesaf i Legoland yn Barton Square, sy'n rhan o Ganolfan Siopa Trafford ym Manceinion. Mae hwn yn safle delfrydol o ran proffil cwsmeriaid Cadwalader, a'i leoliad a'i faint yn peri ei fod yn arbennig o ddeniadol i siopwyr ariannog a theuluoedd ifanc sy'n mwynhau diwrnod allan yn y ganolfan siopa flaenllaw hon.

Fel rhan o ehangiad Cadwalader agorwyd tair siop newydd yn ogystal â siop Canolfan Trafford dros y pum mlynedd diwethaf: Trentham, ger Stoke; Canolfan y Ddraig Goch, Bae Caerdydd; a Chanolfan Dewi Sant yng Nghaerdydd. Gwnaed newidiadau sylweddol hefyd i siop wreiddiol y cwmni yng Nghricieth. Prosiect nesaf y cwmni y gaeaf hwn fydd gwaith ailddatblygu sylweddol yn siop Ceir Fôr Forwyn ym Mae Caerdydd.



Ar hyn o bryd, mae'r cwmni hefyd yn brysur yn gwneud gwaith ail-frandio i adlewyrchu ei gryfderau amrywiol. Mae hufen iâ yn parhau i fod yn greiddiol i'r brand; fodd bynnag erbyn hyn mae gwerthiant diodydd a bwyd yn cyfrif am fwy na 45% o'r trosiant. Oherwydd hyn mae logo'r cwmni'n cael ei addasu i gynnwys y geiriau: "Coffee and Ice Cream Café" yn ogystal â'r arwydd crwn sy'n dangos y côn a'r llythren C nodweddiadol.

Drwy gydol y rhaglen ddatblygu mae Cadwaladers wedi aros yn ffyddlon i'w wreiddiau yng Ngwynedd ac mae'n gwneud pob ymdrech i gynnal ei gysylltiadau busnes yn yr ardal. Mae ei holl gyflenwadau coffi a the, llaeth ar gyfer gwneud yr hufen iâ, cyflenwadau ar gyfer cynhyrchion rhewedig a theisennau a gâteaux arbennig yn dal i gael eu ffynonellu o Ogledd Cymru.



www.cadwaladersicecream.co.uk

Inigo Jones yn Dathlu 150 o Flynyddoedd

Roedd Dydd Gwener, 4ydd Mawrth yn ddiwrnod pwysig iawn yn hen hanes Gwaith Llechi Inigo Jones yn y Groeslon. Daeth cyfeillion a phwysigion lleol ynghyd i ddatlu 150 o flynyddoedd o gynhyrchu llechi gan y cwmni teuluol. Roedd Alun Fred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth wrth law i ddadorchuddio plac coffa arbennig. Llonyfarchodd ef gyfarwyddwr y cwmni, John Lloyd, yn wresog iawn, ar ei lwyddiant a hefyd cymeradwyodd gyfraniad sylweddol John i'r diwydiant ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

Meddai John:

"Yr hyn sy'n cyfrif am barhad y cwmni yw amlbwrpasedd ac ansawdd y cynnyrch. Mae hyn i'w weld yn ein harddangosfa newydd sy'n olrhain hanes y cwmni ac yn dangos yr amrywiaeth eang o gynhyrchion sydd gennym. Fel atyniad i dwristiaid rydym yn falch o groesawu ymwelwyr i'n hystafell arddangos ardderchog sy'n dangos sut y gellir trawsnewid llechen 500 miliwn o flynyddoedd oed ar gyfer cwsmeriaid deallus a soffistigedig heddiw."



Sefydlwyd Gwaith Llechi Inigo Jones ym 1861 yn bennaf i wneud llechi ysgrifennu i ysgolion. Pan ddisodlwyd y rhain gan bapur dechreuodd y cwmni amrywio eu cynnyrch a gwneud paneli trydan o lechen. Y Tudor Slate Works oedd yn darparu llechi ar gyfer y llongau moethus byd-enwog y Queen Mary, y Mauretania a'r Queen Elizabeth. Ehangodd y cwmni yn gyflym gan fynd ymlaen i wneud lleoedd tân - yn aml roedd y rhain yn cynnwys haen o enamel ac wedi eu peintio â llaw - ac roedd yn ffynonellu'r llechi o bob rhan o Ogledd Cymru.

Mae meini coffa wedi bod yn gynnyrch craidd ar hyd y blynyddoedd. Yn fwy diweddar mae'r cwmni wedi bod yn cyflenwi llechi ar gyfer defnydd domestig yn cynnwys lloriau, topiau gwaith ceginau a lleoedd tân. Gall ymwelwyr hefyd fwynhau taith hunandywysedig o'r gwaith sy'n cynnwys arddangosfeydd torri llythrennau, archeoleg a chaligraffi.

Ffôn: 01286 830242 Fax: 01286 831247

E-bost: info@inigojones.co.uk

Cwmnïau Gwynedd yn manteisio ar LEAD Cymru



Mae deunaw o gwmnïau o Wynedd yn bwriadu manteisio ar fenter arwain a hyfforddi arloesol newydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae LEAD Cymru yn rhaglen sy'n torri tir newydd ac sy'n annog twf busnes a datblygiad personol y perchennog-reolwr. Ei nod yw darparu fframwaith fel y gall busnesau wella proffidoldeb, hybu arallgyfeirio a chefnogi twf busnes. Mae cymryd rhan yn y cynllun yn rhad ac am ddim.

Mae rhaglen gwerth £8 miliwn LEAD (Leading enterprise and development) Cymru yn cyfuno addysgu actif â dysgu gweithredol, ac yn annog cyfranogwyr i rannu gwybodaeth a phrofiad â'u cyfoedion a chymhwysor hyn a ddsygant i'w sefyllfaoedd busnes eu hunain. Mae pob rhaglen waith 10 mis yn cynnwys grŵp o hyd at 24 perchennog-reolwr sy'n cyfrannu deuddydd o'u hamser bob mis. Mae pob un yn cael cymorth gan academyddion, Arweinwyr Datblygiad y Grŵp, mentoriaid profiadol a hyfforddwyr proffesiynol allanol. Rhai o'r prif elfennau yw: dosbarthiadau meist, hyfforddiant, cyfnewidiadau a fforwm ar-lein.

Crëwyd LEAD Cymru i ddiwallu anghenion penodol perchennog-reolwyr busnesau bach neu ganolig neu fentrau cymdeithasol sydd wedi bod yn masnachu am o leiaf ddwy flynedd ac sy'n cyflogi lleiafrif o bedwar aelod o staff. Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol. O fewn dwy i dair blynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen rhagwelir y bydd buddiannau mesuradwy y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn tyfu, er enghraifft mwy o gyfleoedd gwaith, cynhyrchiant ac enillion.

Y targed cyffredinol dros y pum mlynedd nesaf yw helpu i ddatblygu 240 o fusnesau yn ardal cydgyfeirio Gogledd Cymru a threfnir y rhaglen gan Brifysgol Abertawe gyda chymorth Prifysgol Bangor er mwyn ei gweithredu yn y Gogledd.

I ddarganfod mwy e-bostiwch: lead@bangor.ac.uk neu cysylltwch â Thîm LEAD Cymru ym Mhrifysgol Bangor: 01248 382497

Teulu Brenhinol yn Dychwelyd i Blas Dinas



Yn dilyn ymweliadau rheolaidd y Dywysoges Margaret â **Thŷ Gwledig Plas Dinas** ryw 35 mlynedd yn ôl, aeth ei gor-nai, y Tywysog William, draw yno am ginio ddechrau mis Ionawr. Paratowyd y cinio tri chwrs gan y cogydd-berchennog Andy Banner-Price a'i weini yn yr hen Ystafell Ynnau 400 oed.

Mae Andy a'i bartner Julian wedi bod yn rhedeg Plas Dinas ers mis Tachwedd 2006 ac er nad oes ganddynt unrhyw gefndir ffurfiol ym maes lletygarwch nac arlwyath maen nhw wedi cael llwyddiant ysgubol wrth ddatblygu enw da rhagorol y busnes a chnewyllyn cadarn o gwsmeriaid ffyddlon. Gan fod y Tywysog William bellach yn byw ar Ynys Môn mae Andy a Julian yn gobeithio mai hwn fydd y tro cyntaf o lawer y byddant yn cael cyfle i groesawu aelodau o'r teulu brenhinol.

Mae rhodfa 1/3 milltir yn arwain at dŷ gwledig 5 seren Plas Dinas ac mae'n lle preifat iawn, ac o'r herwydd mae'n lleoliad delfrydol ar gyfer cyfarfodydd cyfrinachol neu westy i enwogion. Mae digon o le i 16 o bobl yn yr Ystafell Ynnau a hyd at 26 o bobl yn yr Ystafell Fwyta.

I gael rhagor o fanylion ewch i: www.plasdinas.co.uk

Aelodau yn mwynhau digwyddiad cymdeithasol

The Big Xmas Business Bash - a noddwyd gan Rwydwaith Busnes Gwynedd, Clwb Busnes Ynys Môn a Chlwb Busnes Bangor. Cododd raffl elusennol £900 bron at achosion da a rhannwyd yr arian rhwng Tîm Achub Mynydd Llanberis a Sefydliad Brenhinol Badau Achub Ynys Môn. Diolch i'r rhai a gyfrannodd wobrau - Y Ganolfan Rheolaeth (a fu hefyd yn gyfrifol am drefnu'r parti); Waitrose; W H Smith; The Body Shop; Go For It Sports Shop, Bangor; Inigo Jones a Chyfrifwyr Siartredig Griffith Williams a'i Gwmni.



'Agor y Drysau' i'r Dyfodol

Mae cais loteri llwyddiannus gan GISDA wedi sicrhau grant o £289,075 gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer menter newydd. Bydd y Prosiect Agor Drysau yn ariannu gweithgareddau llawn sialens a diddorol megis hwylio, cyfnewidiadau ieuencid a chysiau arbenigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth GISDA, yn ogystal â chynnig unedau achrededig drwy Agored Cymru. Mae GISDA, elusen gofrestredig sydd wedi ei lleoli yng Nghaernarfon, yn cynnig cyfle i bobl ifanc fyw yn annibynnol. Mae'n rhoi gwasanaeth cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.



Hefyd, bydd y Prosiect Agor Drysau yn cynnwys gwasanaeth cyfryngu diduedd, sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth ar gyfer darganfod y ffordd orau i ddefnyddwyr y gwasanaeth ailgysylltu â'u teuluoedd a'u galluogi i elwa ar rwydweithiau cefnogi teuluoedd. Mae'r arian yn hwb aruthrol i GISDA sy'n gobeithio cychwyn ar y prosiect hwn yn y gwanwyn.

Sefydlwyd GISDA ym 1985 gan grŵp o wirfoddolwyr yn ardal Caernarfon fel ymateb i broblem gynyddol digartrefedd ymhlith pobl ifanc y dref a'r rhagfarnau sy'n wynebu pobl ifanc wrth iddynt chwilio am gymorth a chefnogaeth. Ym 1989, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Eryri, agorodd GISDA ei hostel gyntaf yng Nghaernarfon ar gyfer 8 o bobl ifanc. Ar hyn o bryd mae'n cyflogi mwy na 30 o staff ac yn rhoi llety â chymorth i 56 o bobl ifanc ym mhob rhan o Wynedd.

www.gisda.org

Busnesau Bychain yn Cael Llais Cryfach

Mae Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ieuan Wyn Jones, wedi amlinellu cynlluniau i greu grŵp ymgynghorol penodol i gynrychioli anghenion busnesau bychain i'r Cynulliad.

Bydd y grŵp ymgynghorol newydd i Fentrau Bychain a Chanolig yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ambarél sy'n cynrychioli'r sector, a gallent hefyd gynnwys cynrychiolwyr o'r mentrau bychain a chanolig eu hunain. Bydd hwn yn gorff anffurfiol a fydd yn cyfarfod yn chwarterol. Ni fydd cynrychiolwyr yn cael eu talu am gymryd rhan, ond bydd costau rhesymol yn cael eu had-dalu. Bydd manylion ar sut i gymryd rhan yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Atebion Recruitment – yn 20 oed!

Mae Atebion Recruitment, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn ugain oed, wedi manteisio ar hyblygrwydd a'r dechnoleg ddiweddaraf i greu hanes o lwyddiant yng Ngogledd Cymru.

Mae Atebion, a ddechreuodd yn ôl ym 1991, pan oeddynt yn darparu hyfforddiant achrededig a staff i gyflogwyr lleol, wedi llenwi miloedd o swyddi erbyn hyn. Ehangodd yr ochr gyflogi yn gyflym, a diolch i systemau awtomataidd a'r gwaith o ddatblygu meddalweddau yn fewnol cyflymwyd y broses o recriwtio drwyddi draw. Atebion oedd yr asiantaeth gyntaf yng Nghymru i gael gwefan ddwyieithog, ac mae'n parhau i hysbysebu swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn un o'r unig Asiantaethau i wneud hynny. Yn wreiddiol arbenigai'r cwmni mewn darparu staff swyddfa dwyieithog, ond erbyn hyn mae'n gweithio mewn meysydd amrywiol yn cynnwys TG, rheolaeth, ymgynghori, peirianeg a chyfrifon.

Meddai Gill Richards, sy'n gyd-berchen ar y cwmni gyda Lorraine Roberts:

"Mi wnaethom fentro wrth agor ein busnes mewn cyfnod o ddirwasgiad ac rydym wedi gweld llawer o newidiadau dros y blynyddoedd. Mae teipiaduron wedi cael eu disodli gan gyfrifiaduron, mae cyfrifiaduron personol yn bethau cyffredin a negeseuon tecst ac e-byst yn rhan o fywyd bob dydd."

"Mae gennym dim rhagorol, gweithwyr dros dro ardderchog, a chwsmeriaid ffyddlon. Er gwaetha'r hinsawdd gyfredol mae galw cyson o fusnesau preifat. Bydd ein profiad maith a'n gwybodaeth o'r ardal yn rhoi mantais inni wrth fynd i'r afael â sialensiau yn y dyfodol."

atebion
Recruitment Ltd

www.atebion.co.uk

Amdan y Rhwydwaith

Mae'r rhwydwaith yn grŵp o berchnogion a gweithredwyr busnes yng Ngwynedd a ffurfiwyd yn 2005 i ddarparu fforwm ar gyfer pob busnes yn y Sir er mwyn:

- Rhwydweithio a rhyng-fasnachu
- Cyfathrebu â sectorau eraill (cyhoeddus ac academaidd)
- Adnabod, datblygu a datrys problemau sy'n wynebu busnesau yn yr ardal.

Cwmni cyfyngedig drwy warant, mae ein bwrdd o saith cyfarwyddwr i gyd yn gweithio'n wirfoddol.

Os hoffech chi gyfrannu i'r cylchlythyr neu hysbysebu eitem newyddion neu ddiwyddiad, anfonwch e-bost i admin@gwyneddbusnes.net Rhaid i bob eitem fydd yn cael ei chyhoeddi fod yn ddwyieithog – Cymraeg a Saesneg.

Ymaelodi

Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bob busnes yng Ngwynedd. Gallwch gofrestru drwy ein gwefan www.gwyneddbusnes.net. Er bod modd cael mynediad i'r rhwydwaith heb gofrestru'n ffurfiol, rydym yn eich annog i wneud hynny. Trwy wneud hynny bydd yn bosibl ichi gael mynediad i bob rhan o'r wefan, yn cynnwys y rhestr o aelodau a byddwch yn derbyn e-byst a chylchlythyrau rheolaidd a fydd

yn rhoi'r newyddion diweddaraf ichi am ddiwyddiadau, cyfarfodydd a gwybodaeth fusnes.

Cyfnod Pysur i 'Frenin' y Cyfryngau

Mae CREAD Cyf, sydd wedi ei leoli yn CAST, Parc Menai, yn gwmni cyfryngau a dylunio a chanddo bortffolio trawiadol a rhestr eang o gleientiaid. Roedd 2010 yn flwyddyn hynod o brysur i'r cwmni hwn sy'n cynyddu'n gyflym gyda phrosiectau oedd yn amrywio o gynyrchiadau teledu a radio, i ddylunio taflenni a gwefannau, a brandio corfforaethol. Ymysg storïau llwyddiant mwy adnabyddus CREAD yn ystod y misoedd diweddar yr oedd dwy gyfres o raglenni dogfen BBC Radio Wales. Darlledwyd y rhaglen gyntaf, "The Quarrymen" ym mis Tachwedd y llynedd. Y cyflwynydd oedd Rhun ap Iorwerth ac roedd y rhaglen yn astudio bywydau chwarelwyr Cymru a'u teuluoedd. Cafodd "The Community That Saved the Farm" ei darlledu ym mis Chwefror ac roedd yn adrodd hanes rhyfeddol cymuned o Ogledd Cymru yn mynd ati i achub fferm oedd mewn perygl o gael ei chau yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. Mae mwy o waith dogfennol eisoes wedi ei gomisiynu a bydd ar yr awyr o fewn y 12 mis nesaf.

E-bost: stephen@creadcyf.co.uk / Gwefan: www.creadcyf.co.uk



Y Dyfodol – Dyfodol Hyfforddiant yn y Sector Preifat

Gallai cwmnïau cymwys a'u gweithwyr elwa o brosiect newydd sy'n cael ei ariannu gan Ewrop ac sy'n anelu at ddatblygu sgiliau'r rhai a gyflogir yn y sector preifat yng Ngogledd Gorllewin Cymru. Mae 'Y Dyfodol – Sgiliau mewn Cyflogaeth' yn gynllun sydd ar gael ym mhob un o safleoedd rhwydwaith Coleg Llandrillo Cymru ac mae'n gynllun a fydd yn darparu hyfforddiant cymorthdaledig i gyflogwyr a gweithwyr. Mae Coleg Menai a Choleg Harlech yn ddau o bartneriaid y rhwydwaith sy'n cael ei arwain gan Goleg Llandrillo, ac mae Coleg Glannau Dyfrdwy hefyd yn cymryd rhan.

Am un taliad o £50 y pen gan bob gweithiwr sy'n dymuno cymryd rhan, bydd amrediad o gyrsiau ar gael drwy rwydwaith y Coleg yn cynnwys NVQs a chysiau byrion mewn pynciau megis Adwerthu, Gofal, Adnoddau Adnewyddadwy a Lletygarwch. Bydd y cynllun a'i elfennau cydrannol yn rhoi'r cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau ac ennill cymwysterau perthnasol o fewn y gweithle. Mae tîm o diwtoriaid proffesiynol ac arbenigol a chanddynt brofiad sylweddol o ddiwydiant yn eu priod feysydd yn ymrwymedig i ddarparu hyfforddiant hyblyg a fforddiadwy a gynlluniwyd yn benodol i gwrdd ag anghenion busnes a diwydiant. Gall Cynghorwyr Datblygu Busnes ac Arbenigwyr TG ymweld â'ch sefydliad yn ddi-dâl i drafod eich anghenion hyfforddi.

Cafodd grŵp cymorth rhwydwaith cyflogwyr Canolfan Ddatrysiadau Busnes ei lansio yn 2009. I gael rhagor o fanylion ynglŷn ag aelodaeth neu ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod cysylltwch â:

Gillian Bradshaw neu Janice Johnson ar: 0845 450 59 60
neu ewch i'r wefan: www.llandrillo.ac.uk/businesspoint



Canlyniadau Arolwg yn Helpu i Deilwrio Cymorth Busnes

Bydd **Cyngor Gwynedd** yn gallu canolbwyntio ar ddarparu cymorth busnes i'r economi leol o ganlyniad i ddarganfyddiadau arolwg diweddar. Bydd canlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd drwy'r sir gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth ac Uned Cymorth Busnes y Cyngor, yn helpu swyddogion i amgyffred yr hinsawdd economaidd leol gyfredol.

Cymerodd bron i 300 o fusnesau ran yn y pleidleisio yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2010 a'r gobaith yw y bydd eu cyfraniad hefyd yn hyrwyddo Cyfeiriadur Busnes ar-lein Cyngor Gwynedd sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys oddeutu 1,200 o fusnesau lleol. Nawr mae gan y Cyngor y data diweddaraf am farn y sector busnes ynglŷn â materion pwysig megis telerau cyflogaeth, hyfforddiant, recriwtio a thwf busnes.

Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg arall i gyd-fynd ag Wythnos Busnes Gwynedd 2011, 23-27 Mai.

Canlyniadau llawn yn: www.gwynedd.gov.uk/research

Benthyciadau i Fusnesau yng Ngwynedd

Mae Cronfa Benthyciadau Lleol newydd, ar gyfer mentrau bychain a chanolig yn y sir, newydd gael ei sefydlu gan **Cyngor Gwynedd** a gallai hyn fod yn hwb gwirioneddol i'r economi. Bydd y benthyciadau rhwng £25,000 a £100,000 a bydd cyfle i ymgeisio am symiau mwy (ond a fydd yn adlewyrchu asedau) pan fo tystiolaeth glir fod angen cymorth ariannol i ddatblygu neu i ehangu'r busnes.

Fel rhan o'i strategaeth, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd (ym mis Mai 2009) 'Ymateb i'r Dirwasgiad' a oedd yn cynnwys rhaglen o gynlluniau ac ymyriadau i gynorthwyo'r economi ar adeg o ansicrwydd. Un o'r cynlluniau oedd ystyried opsiynau ar gyfer sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol newydd. Comisiynwyd gwaith i ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd hwn a chymeradwywyd sefydlu'r Gronfa newydd gan Fwrdd y Cyngor ym mis Tachwedd 2010. Pwrpas y benthyciadau hyn yw creu busnes, ailstrwythuro, datblygu neu ehangu.

Cysylltwch â Thîm Cymorth Busnes ar: **01286 679778**
neu: business@gwynedd.gov.uk

Ai Lansiwr ynteu Lofäwr ydych chi?

Mae plattform digidol newydd sbon wedi ei lansio i hybu busnesau yng Ngwynedd. Drwy wefan, mae **Launch Lounge** yn rhoi'r cyfle i sefydliadau fagu disgwyliadau yn ystod y cyfnod sy'n arwain at lansiad a'r sylw a roddir i'r diwyddiad ei hun. Bydd mynediad am ddim i fusnesau a'r sector gwirfoddol i arddangos eu lansiadau gyda'r cyfle opsiynol o gynnwys cynigion hyrwyddol megis 'nwyddau am ddim' neu ddisgowntiau. Gall y 'Launchers' gofrestru i gynnal eu hymgyrchoedd am gyfnod o ddeng mis. Y 'Loungers' yw'r rhai sy'n ymweld â'r safle. Gellir eu hysbysu ynglŷn â chynhyrchion, gwasanaethau neu ddigwyddiadau newydd sy'n cael eu lansio fel y gallant fanteisio ar y cynigion sydd ar gael.

Dyma eglurhad Nina Menichino, gweinyddwr safle Launch Lounge: "Ein bwriad yw gyrru traffig i'r safle, ac felly byddwn yn defnyddio sianeli digidol a phrint eraill i hyrwyddo'r safle a'r lansiadau – mae hi'n senario sydd o fudd i bawb sy'n cymryd rhan, yn arbennig gan nad oes tâl ar hyn o bryd am ddefnyddio'r gwasanaeth marchnata ar-lein hwn."

Mae Launch Lounge wedi cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.launchlounge.com
Er mwyn dechrau 'lansio', cofrestrwch gan ddefnyddio'r côd mynediad: **GWYN01**. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: nina@launchlounge.com

Ynglŷn â'r Rhwydwaith

Fforwm ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yn y sir yw **Rhwydwaith Busnes Gwynedd**. Drwy gyfrwng cyfres o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd, ei brif amcan yw rhoi

cyfleoedd i rwydweithio a rhyng-fasnachu. Mae hefyd yn caniatáu i aelodau hysbysebu eu nwyddau a'u gwasanaethau ac i ffynonellu cyflenwyr lleol. Drwy weithredu fel llwyfan lle gall gyfranogwyr leisio syniadau a phryderon, mae'n adnodd hanfodol ar gyfer dylanwadu ar bolisi economaidd a newid. Defnyddir e-fwletinâu cyson i roi gwybod am ddigwyddiadau busnes, deddfwriaeth newydd, a chyfleoedd hyfforddi ac i roi cysylltiadau â sefydliadau cefnogi busnes. Rhan o ethos RhBG yw rhannu enghreifftiau o arfer gorau a phrofiadau o redeg busnes. Mae'r Rhwydwaith yn gwmni cyfyngedig drwy warant gyda saith o Gyfarwyddwyr ar ei Fwrdd. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim ac anogir aelodau i gynnwys logo RhBG ar eu deunyddiau ysgrifennu a'u gwefannau. Er mwyn cofrestru neu er mwyn cael gwaith celf ar gyfer y logo ewch i: www.gwyneddbusnes.net

© 2011 Rhwydwaith Busnes Gwynedd
Ysgrifennwyd a golygwyd gan: Jacquie Knowles

Dylunio gan: mwncibach.com

Sylwer na ellir dal y cyhoeddwy yn gyfrifol
am unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y testun.